Croeso lliwgar yn ysgol Johnston



Mae ymwelwyr â'r ysgol newydd yn Johnston yn sicr o groeso cynnes a lliwgar, diolch i ddoniau celfyddydol trigolion lleol.

Mae brithwaith amryliw gyda'r gair Croeso arno'n addurno mur allanol yr ysgol newydd ar ôl i aelodau'r prosiect Sbardun ei lunio a'i greu.

Un o brosiectau Sir Benfro yn Dysgu yw Sbardun sy'n cynnal amrywiaeth eang o gyrsiau hwyliog, di-dâl a chyffrous ar gyfer oedolion a theuluoedd mewn rhai ardaloedd.

Mae dros 40 o oedolion a 30 o blant wedi dysgu sgiliau a chrefftau newydd ers cyflwyno Sbardun i'r pentref ym mis Ebrill 2016.

Y rhaglen ddiweddaraf, dan arweiniad Pandora Hughes, tiwtor celf, gyda chymorth Jenny Shaw, cynghorwr Sbardun, oedd y diweddaraf o 13 o gyrsiau i'w cynnal yn yr ysgol.

"Mae'r brithwaith yn cyfannu'r ysgol yn wych," meddai Gareth Thomas, Pennaeth yr ysgol.

"Aeth llawer o feddwl ac ymdrech i'w ddylunio a'i adeiladu a dyna'n bwriad fel ysgol; rydym yn cynnig croeso cynnes i bawb ac yn datblygu myfyrwyr sy'n meddwl ynghylch pam eu bod yn dysgu a'u hannog i ymdrechu fymryn yn galetach i lwyddo."

Geiriad
O'r chwith i'r dde: Yn y llun, nesaf at y Brithwaith lliwgar yn ysgol Johnston mae; Hayley Scale, Jenny Shaw (Cynghorydd Sbardun), Natalie Wilson, Mr Thomas, (Pennaeth), y Cynghorydd Ken Rowlands (Cynghorydd Sir a Chadeirydd y Llywodraethwyr), Donna Sunderland, Laura Phillips (Cydgysylltydd Sbardun), Leanne Raymond a Jacqueline Thomas.